Cynllunio'r Gweithlu i Gynyddu Ymgynghoriadau Clinigol Cymraeg

Cynllun 5 Mlynedd ar gyfer 2020-2025

Cydymffurfiaeth â Safon 110 o Safonau'r Gymraeg

Cynnwys

Adran 1 – Cefndir a Chynllun y Gweithlu

Crynodeb gweithredol 3

Cyflwyniad a chefndir 4

Sut y byddwn yn sicrhau darpariaeth well o ymgynghoriadau clinigol trwy gyfrwng y Gymraeg 5

Canlyniad 1 Gweithlu ymroddedig, brwdfrydig ac iach 6

Canlyniad 2 Denu a recriwtio 7

Canlyniad 3 Modelau gweithlu di-dor 7

Canlyniad 4 Creu gweithlu sy'n barod yn ddigidol 7

Canlyniad 5 Addysg a dysgu rhagorol 7

Canlyniad 6 Arweinyddiaeth ac olyniaeth 8

Canlyniad 7 Cyflenwad a siâp y gweithlu 8

Adran 2: Blaenoriaethau ar gyfer 2020 – 2025

Mesur r rheoli perfformiad 8

Datblygu Cynllun Gweithredu Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg ar gyfer 2020–2025 9

Blaenoriaethau ar gyfer y flwyddyn sydd i ddod 9

Adran 3: Cynllun Gweithredu 2020-2025

Cynllun gweithredu ar gyfer 2020-2025 10

Adran 1 – Cefndir a Chynllun y Gweithlu

Crynodeb gweithredol

Yn unol ag Adran 44 o Fesur y Gymraeg (Cymru) 2011, yn benodol Safon 110, mae'n ofynnol i'r Bwrdd Iechyd gyhoeddi cynllun ar gyfer pob cyfnod o bum mlynedd, sy'n nodi –

(a) i ba raddau yr ydych yn gallu cynnig cynnal ymgynghoriad clinigol yn Gymraeg;
(b) y camau yr ydych yn bwriadu eu cymryd i gynyddu eich gallu i gynnig cynnal ymgynghoriad clinigol yn Gymraeg;
(c) amserlen ar gyfer y camau yr ydych wedi rhoi manylion amdanynt yn (b).

Mae'n amlwg, o adroddiad Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg o Gofnod Electronig y Staff (ESR) i Gomisiynydd y Gymraeg yn 2019, ei bod wedi bod yn anodd nodi faint o staff sydd â sgiliau Cymraeg dros y flwyddyn ddiwethaf, a hynny oherwydd bod y ffin wedi ei symud i gynnwys ardal Pen-y-bont ar Ogwr a oedd gynt yn rhan o Fwrdd Iechyd Abertawe Bro Morgannwg, gan nad oedd y cofnodion yn gyfoes. Gwnaed cynnydd da cyn yr uno, ond bu gostyngiad o 10% yng nghanran y staff a oedd wedi cofnodi eu sgiliau ar ESR rhwng 1 Ebrill 2018 a 1 Ebrill 2019 (sef dyddiad yr uno).

Mae gwaith i sicrhau bod staff Pen-y-bont ar Ogwr wedi cofnodi eu sgiliau Cymraeg wedi ei gwblhau bellach, ac mae'n orfodol cofnodi'r wybodaeth hon.
Mae Tîm y Gymraeg y Bwrdd Iechyd wedi parhau i godi ymwybyddiaeth staff o bwysigrwydd cofnodi eu sgiliau Cymraeg, trwy ddigwyddiadau ymgysylltu a chyfathrebu â staff.

Mae Tîm y Gymraeg hefyd wedi parhau i gynorthwyo staff i ddatblygu eu hymwybyddiaeth o'r iaith a'i diwylliant ac o Gynnig Rhagweithiol Mwy na Geiriau, sy'n sicrhau bod cleifion Cymraeg yn cael cynnig gwasanaeth Cymraeg heb orfod gofyn amdano. Rydym wedi llwyddo i wneud hynny trwy ddarparu gwersi Cymraeg am ddim i staff, cynnal sesiynau ymwybyddiaeth iaith yn ystod sesiynau ymsefydlu i staff newydd a thrwy archwilio wardiau yn rheolaidd. Mae hon yn rhan greiddiol o wreiddio ein Gwerthoedd a'n Hymddygiadau yn y broses ymsefydlu gorfforaethol i staff newydd.

Mae Tîm y Gymraeg wedi llwyddo i gyflwyno rhaglen hyfforddi sy'n magu hyder y staff i ddefnyddio'r Gymraeg ac yn parhau i ddarparu sesiynau hyfforddi sgiliau Cymraeg yn y dderbynfa a gwersi wythnosol yn y tri ysbyty cyffredinol dosbarth. Cyflawnwyd hyn drwy weithio mewn partneriaeth â Sgiliau Gwaith Cyngor Merthyr Tudful ar gyfer y Tîm Oedolion, colegau lleol a Phrifysgol De Cymru.

Wrth greu'r cynllun pum mlynedd, sy'n ofynnol dan Safonau'r Gymraeg, un ffactor allweddol yw mynd i'r afael ag anghenion y boblogaeth er mwyn dangos gwelliant yn ein gallu i gynnig ymgynghoriadau clinigol drwy gyfrwng y Gymraeg.

Rhoddir ystyriaeth benodol i wella'r ddarpariaeth o ymgynghoriadau clinigol Cymraeg mewn gwasanaethau a ddefnyddir gan y 'grwpiau agored i niwed' a nodir yn y strategaeth 'Mwy na Geiriau'. Dyma'r grwpiau hyn:

- Plant a phobl ifanc
- Pobl ag anableddau dysgu

- Pobl â phroblemau iechyd meddwl
- Pobl hŷn

Canolbwynt y cynllun pum mlynedd hwn fydd gwella sgiliau Cymraeg y gweithlu presennol a chynyddu nifer yr aelodau staff dwyieithog sy'n gallu cynnig ymgynghoriadau drwy gyfrwng y Gymraeg. Er mwyn cyflawni hyn, byddwn yn cynnal yr ymyriadau canlynol wedi eu targedu:

- Monitro'r nifer o staff sy'n cofnodi data yn ESR;
- Cynnal hyfforddiant ynghylch ymwybyddiaeth iaith a'r Strategaeth Sgiliau Dwyieithog i Reolwyr y Gweithlu;
- Monitro'r defnydd o'r Strategaeth Sgiliau Dwyieithog er mwyn sicrhau bod y nifer o swyddi lle mae'r Gymraeg yn hanfodol yn cynyddu bob blwyddyn;
- Cynnig gwersi Cymraeg priodol i bob aelod o staff ledled y Bwrdd Iechyd;
- Mynd i ddigwyddiadau gyrfaoedd mewn ysgolion a cholegau er mwyn codi ymwybyddiaeth o'r angen am siaradwyr Cymraeg mewn swyddi iechyd;
- Datblygu a hyrwyddo adnoddau a phecynnau cymorth i staff eu defnyddio gyda chleifion;
- Cydweithio â gwasanaethau gofal sylfaenol i sicrhau na chaiff y Gymraeg ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg;
- Cynorthwyo Cyfarwyddiaethau i weithredu eu Cynlluniau Gweithredu ar gyfer Safonau'r Gymraeg.

Cyflwyniad a chefndir

Cymeradwywyd Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru a rhoddwyd cydsyniad brenhinol iddo ar 9 Chwefror 2011.

Mae'r ddeddfwriaeth hon yn rhoi statws swyddogol i'r Gymraeg yng Nghymru ac yn cadarnhau'r egwyddor na ddylid trin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg yng Nghymru.

Yn ogystal â hynny:

- creodd y Mesur y weithdrefn ar gyfer rhoi dyletswyddau ar sefydliadau, sef Safonau'r Gymraeg ("y Safonau")
- sefydlodd y Mesur rôl Comisiynydd y Gymraeg ("y Comisiynydd") er mwyn craffu ar y gydymffurfiaeth â'r Safonau
- rhoddodd y Mesur rym i'r Comisiynydd ymchwilio i unrhyw honiadau o ymyrryd â rhyddid unigolyn i ddefnyddio'r Gymraeg

Crëwyd y ddogfen hon yn unol â'r gofynion ar y Bwrdd Iechyd o dan Safonau'r Gymraeg, sef Adran 26 o Fesur y Gymraeg (Cymru) 2011.

Mae Adran 26 o Fesur 2011 yn galluogi Gweinidogion Cymru i bennu Safonau ac mae Adran 39 yn eu galluogi i bennu bod unigolyn yn ddarostyngedig yn benodol i Safon drwy awdurdodi'r Comisiynydd i gyflwyno hysbysiad o gydymffurfiaeth reoliadol.

Rhoddwyd hysbysiad o gydymffurfiaeth reoliadol ar Fwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg ar 30 Tachwedd 2018, a hynny ar ffurf Safonau.

Mae Safon 110 yn ei gwneud yn ofynnol i'r Bwrdd Iechyd gyhoeddi cynllun iaith Gymraeg corfforaethol pum mlynedd, sy'n nodi i ba raddau y mae'n gallu cynnal ymgynghoriad clinigol yn Gymraeg a pha gamau gweithredu y mae'n bwriadu eu cymryd i wella ei allu i gynnal ymgynghoriad clinigol yn Gymraeg.

Sut y byddwn yn sicrhau darpariaeth well o ymgynghoriadau clinigol Cymraeg

Nod y Bwrdd Iechyd, erbyn 2025, yw y bydd ein gallu i gynnal ymgynghoriadau clinigol i ddefnyddwyr ein gwasanaethau yn Rhondda Cynon Taf, Merthyr Tudful a Phen-y-bont ar Ogwr yn cyfateb i anghenion ieithyddol y cymunedau rydym yn eu gwasanaethu.

Er mwyn cyflawni hyn, dyma ein blaenoriaethau ar gyfer gwella ein gallu i ddarparu ymgynghoriadau clinigol yn y Gymraeg yn y 12 mis cyntaf:

- Datblygu'r cynllun iaith Gymraeg pum mlynedd hwn, gan nodi i ba raddau y gallwn gynnig cynnal ymgynghoriad clinigol yn Gymraeg a'r camau gweithredu rydym yn bwriadu eu cymryd i wella ein gallu i gynnal ymgynghoriad clinigol drwy gyfrwng y Gymraeg.
- Deall yn well anghenion ieithyddol y cymunedau rydym yn eu gwasanaethu.
- Sicrhau'r defnydd gorau o'n hadnoddau Cymraeg er mwyn sicrhau cefnogaeth effeithiol i'r gweithlu. Er enghraifft, gwasanaethau cyfieithu, gwersi Cymraeg.
- Nodi nifer yr aelodau o staff yn y Bwrdd Iechyd sy'n siarad Cymraeg ac sy'n hyderus i gynnig ymgynghoriad clinigol yn Gymraeg.
- Cydweithio fel y bo'n briodol ar brosiectau i Gymru gyfan, er mwyn darparu asesiadau safonedig yn y Gymraeg mewn meysydd fel Therapi Iaith a Lleferydd ac i safoni terminoleg glinigol Gymraeg;
- Datblygu Cynlluniau Gweithredu adrannau ar gyfer Safonau'r Gymraeg, a'u monitro.

Byddwn yn nodi ein cynnydd yn erbyn y mesurau canlynol:

- Trefniadau llywodraethu ar waith er mwyn monitro'r gwaith o weithredu Safonau'r Gymraeg.
- Cynyddu'r nifer o aelodau o staff sy'n cwblhau eu cymwyseddau Cymraeg drwy ESR.
- Gwella'r adnoddau a hyfforddiant yn y Gymraeg sydd ar gael i'r staff.
- Gwneud y gorau o sgiliau Cymraeg y gweithlu.
- Gwella ymwybyddiaeth y staff o'r Gymraeg, ei diwylliant a'i heffaith gadarnhaol ar gynnig profiad effeithiol i gleifion.
- Dadansoddi a chofnodi llwyddiant adrannau gyda'u Cynlluniau Gweithredu.

Mae'r ddogfen hon yn bwriadu amlinellu sefyllfa bresennol Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg, mae'n nodi'r cynnydd a wnaed gennym yn erbyn pob un o'n blaenoriaethau ac mae'n disgrifio'r canlyniadau y gellir monitro cynnydd yn eu herbyn.

Mae'r awydd am system iechyd a gofal cymdeithasol o ansawdd uchel yn i'w weld yn glir yn neddfwriaeth Cymru dros ddatblygu cynaliadwy, sef Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, sy'n nodi saith nod llesiant.

Mae Addysg a Gwella Iechyd Cymru yn datblygu Strategaeth Iechyd a Gofal Integredig sy'n cyfleu'r nod pedwarplyg yn "Cymru Iachach: ein Cynllun Iechyd a Gofal Cymdeithasol". Bydd y Nod Pedwarplyg yng Nghynllun Cymru Iachach yn hybu'r saith thema allweddol yn ein cynllun pum mlynedd, a byddant yn cael eu monitro a'u datblygu i greu camau gweithredu penodol er mwyn gwireddu ein huchelgais a chyflawni Strategaeth y Gymraeg.

Mae'r datganiad canlynol mewn perthynas â'r Gymraeg wedi ei gynnwys yn Strategaeth Gweithlu Addysg a Gwella Iechyd Cymru:

Bydd y strategaeth yn adeiladu ar sylfeini Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (2015), a Chymraeg 2050: Miliwn o Siaradwyr Cymraeg, i greu gweithlu sy'n ymgysylltu, yn iach, yn hyblyg, yn ymatebol ac yn gynaliadwy ar gyfer y dyfodol sy'n adlewyrchu poblogaeth amrywiol, sy'n siarad Cymraeg a'i hunaniaeth ddiwylliannol. Bydd y fframwaith deddfwriaethol sy'n ymwneud â defnyddio a darparu gwasanaethau yn yr iaith Gymraeg yr ydym yn gweithio ynddi, yn llywio'r gwaith o wreiddio'r Gymraeg yn y gofal a'r cymorth a ddarparwn.

Mae tystiolaeth o ganlyniadau clinigol gwell, a chanlyniadau i bobl sy'n cael gafael ar ofal a chymorth, yn tynnu sylw at y pwyslais hanfodol yr ydym yn ei roi ar ddarparu gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol yn iaith Cymru.

Ein nod fydd deall, rhagweld a chynllunio i ddiwallu anghenion iaith Gymraeg myfyrwyr iechyd a gofal cymdeithasol, ein gweithlu ac yn y pen draw, cleifion a phobl sy'n cael gofal a chymorth ledled Cymru wrth i ni symud ymlaen.

Mae cefnogi ein gweithlu i ddarparu gofal gan ddefnyddio'r Gymraeg lle bo angen, yn egwyddor sylfaenol a ddylai fod yn sail i bob rhan o'r strategaeth gweithlu hon.

Canlyniad 1
Gweithlu ymroddedig, brwdfrydig ac iach

Byddwn yn mesur ein cynnydd wrth gyflawni'r amcan hwn gan ddefnyddio'r dangosyddion canlynol:

- Monitro data ESR er mwyn sicrhau bod sgiliau Cymraeg yn cael eu cofnodi, a bod y nifer o staff sy'n cwblhau eu data yn cynyddu gan 5% bob blwyddyn;
- Monitro'r nifer o staff sy'n ymrestru ar hyfforddiant Cymraeg ac sy'n ei gwblhau, a sicrhau cynnydd gan 10% yn y nifer honno bob blwyddyn;
- Y nifer o staff Cymraeg sy'n dymuno bod ar y rhestr o siaradwyr Cymraeg ar SharePoint yn cynyddu gan 10% bob blwyddyn;
- Dathlu gweithgareddau Cymraeg fel 'Dysgwr y Tymor' a rhannu arferion da â staff trwy newyddlen a gyhoeddir ddwywaith y flwyddyn.

Canlyniad 2

Denu a recriwtio

Byddwn yn mesur y cynnydd yn erbyn y canlyniad hwn drwy'r dangosyddion canlynol:

- Monitro a cheisio cynyddu nifer y swyddi Cymraeg hanfodol a gaiff eu hysbysebu er mwyn sicrhau y caiff y strategaeth sgiliau dwyieithog ei gweithredu ar draws meysydd allweddol y fframwaith Mwy na Geiriau.
- Datblygu a hyrwyddo'r defnydd o'r strategaeth sgiliau dwyieithog ymhlith partneriaid busnes y gweithlu drwy hyfforddiant wedi ei dargedu.
- Cydweithio'n helaethach ag ysgolion a cholegau lleol i hyrwyddo'r Gymraeg a denu siaradwyr y Gymraeg i yrfaoedd ym maes iechyd. Byddwn yn monitro cynnydd o ran hynny trwy ddadansoddi data am ble mae disgyblion yn mynd ar ôl gadael yr ysgol/coleg.

Canlyniad 3
Modelau gweithlu di-dor

Byddwn yn mesur ein cynnydd wrth gyflawni'r amcan hwn gan ddefnyddio'r dangosyddion canlynol:

- Datblygu a gweithredu polisi gofal sylfaenol (Safon 78);
- Hyrwyddo hyfforddiant yn y Gymraeg a ddarperir gan y Bwrdd Iechyd ac annog staff gofal sylfaenol i'w fynychu.
- Hyrwyddo'r rhestr o siaradwyr Cymraeg ar SharePoint ac annog y defnydd ohoni, er mwyn cynnig gwasanaeth Cymraeg di-dor i gleifion.

Canlyniad 4
Creu gweithlu sy'n barod yn ddigidol

Byddwn yn mesur ein cynnydd wrth gyflawni'r amcan hwn gan ddefnyddio'r dangosyddion canlynol:

- Monitro'r defnydd o'r logo Iaith Gwaith ar sgriniau digidol y wardiau a chynyddu'r defnydd ohono ar gyfer cleifion Cymraeg eu hiaith. Byddwn yn monitro hyn trwy ein harchwiliadau o wardiau;
- Hyrwyddo'r defnydd o gyfieithu ar y pryd ar lein i gleifion Cymraeg a chynyddu'r defnydd ohono;
- Staff sydd am ddysgu'r Gymraeg yn cwblhau'r cwrs Cymraeg 10 awr ar lein.

Canlyniad 5
Addysg a dysgu rhagorol

Byddwn yn mesur ein cynnydd wrth gyflawni'r amcan hwn gan ddefnyddio'r dangosyddion canlynol:

- Monitro'r nifer o staff sy'n ymrestru i wneud hyfforddiant Cymraeg ac sy'n cwblhau'r hyfforddiant hwnnw, a chynnydd o 10% yn y nifer honno bob blwyddyn;
- Yr holl staff sy'n dymuno dysgu Cymraeg yn cwblhau'r cwrs Cymraeg 10 awr ar-lein.
- Yr holl staff newydd yn cael hyfforddiant ymwybyddiaeth o'r Gymraeg mewn sesiynau ymsefydlu.

Canlyniad 6
Arweinyddiaeth ac olyniaeth

Byddwn yn mesur ein cynnydd wrth gyflawni'r amcan hwn gan ddefnyddio'r dangosyddion canlynol:

- Caiff adnoddau Tîm y Gymraeg o ran staff eu monitro i sicrhau bod cymorth digonol ar gael i'r staff er mwyn defnyddio adnoddau a darparu gwasanaethau Cymraeg.
- Datblygu a hyrwyddo'r defnydd o'r strategaeth sgiliau dwyieithog ymhlith Penaethiaid y Gweithlu a Datblygu Sefydliadol a'r Grwpiau Ardal Integredig drwy hyfforddiant wedi ei dargedu.
- Caiff staff Tîm y Gymraeg hyfforddiant i arwain yn effeithiol a darparu gwasanaethau megis cyfieithu a chyfieithu ar y pryd.

Canlyniad 7
Cyflenwad a siâp y gweithlu

Byddwn yn mesur ein cynnydd wrth gyflawni'r amcan hwn gan ddefnyddio'r dangosyddion canlynol:

- Monitro data yn ESR er mwyn sicrhau bod sgiliau Cymraeg yn cael eu cofnodi a bod y nifer o staff sy'n cwblhau eu data yn cynyddu gan 5% bob blwyddyn;
- Monitro'r nifer o staff sy'n ymrestru i wneud hyfforddiant Cymraeg ac sy'n cwblhau'r hyfforddiant hwnnw, a chynnydd o 10% yn y nifer honno bob blwyddyn;
- Y nifer o staff Cymraeg sy'n dymuno bod ar y rhestr o siaradwyr Cymraeg ar SharePoint yn cynyddu bob blwyddyn;
- Monitro'r nifer o swyddi Cymraeg hanfodol sy'n cael eu hysbysebu a cheisio cynyddu'r nifer honno, er mwyn sicrhau bod y Strategaeth Sgiliau Dwyieithog yn cael ei gweithredu yn y meysydd o flaenoriaeth a nodwyd yn Fframwaith Mwy na Geiriau.
- Datblygu'r Strategaeth Sgiliau Dwyieithog a hyrwyddo'r defnydd ohoni trwy dargedu hyfforddiant i Bartneriaid Busnes y Gweithlu.

ADRAN 2

Mesur a rheoli perfformiad
Mae'n ofynnol i'r Bwrdd Iechyd greu a chyhoeddi cynllun i nodi, monitro a gwerthuso'r camau gweithredu sydd eu hangen o fewn amserlenni. Cyfarwyddwr Gweithredol y Gweithlu a Datblygu Sefydliadol yn y Bwrdd Iechyd sy'n gyfrifol am y Gymraeg. Mae cynnydd yn cael ei adrodd yn ffurfiol wrth y Bwrdd trwy'r trefniadau llywodraethu. Ymhlith y trefniadau llywodraethu hyn y mae Gweithgor Safonau'r Gymraeg, y Pwyllgor Pobl a Diwylliant a'r Bwrdd Rheoli Gweithredol. Bydd adroddiadau ynghylch cynnydd a roddir gerbron y Bwrdd yn cael eu cyhoeddi ar ein gwefan, fel sy'n ofynnol ar ôl cyfnod o 3 a 5 mlynedd.

Datblygu Cynllun Gweithredu Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg ar gyfer Safon 110 (2020-2025)

Yn dilyn ein hasesiad o'r cynnydd yn erbyn y blaenoriaethau, rydym wedi adolygu'r ffordd y gallai fod angen i'r ddarpariaeth gwasanaeth newid. Rydym wedi nodi'r camau i'w cymryd yn ystod cyfnod y cynllun hwn, ac yn benodol y gweithredoedd a'r amcanion yr hoffem eu gweld yn digwydd dros y pum mlynedd nesaf. Byddwn yn diweddaru'r Cynllun Gweithredu hwn ac yn ei gyhoeddi ar fewnrwyd y Bwrdd Iechyd. Byddwn hefyd yn adrodd am ein cynnydd yn Adroddiad Blynyddol y Bwrdd Iechyd ynghylch y Gymraeg.

O ystyried y sefyllfa ar hyn o bryd o ran cofnodi data am sgiliau Cymraeg ar ESR yn ardal Pen-y-bont ar Ogwr, mae wedi bod yn anodd asesu'n llawn beth yw ein gallu presennol i gynnal ymgynghoriadau yn y Gymraeg. Felly, roedd angen cynnwys y data oddi ar ESR fel sylfaen i fesur a monitro cynnydd fel canlyniad ar gyfer camau cynnar y cynllun hwn.

Blaenoriaethau ar gyfer y flwyddyn sydd i ddod

Bwriad y Cynllun Gweithredu hwn yw gwella'r canlyniadau rhwng 2020 a 2025. Hefyd yn y cynllun, rydym wedi nodi blaenoriaethau sy'n adlewyrchu ein heriau lleol. Bwriad y rhain yw cynyddu:

- Nifer yr aelodau o staff sy'n cofnodi sgiliau Cymraeg ar ESR.
- Nifer yr aelodau staff sy'n cael hyfforddiant yn y Gymraeg ar-lein.
- Nifer yr aelodau staff sydd wedi derbyn y cynnig hyfforddiant yn y Gymraeg.
- Nifer y staff sy'n cael hyfforddiant ymwybyddiaeth o'r Gymraeg gyda chanolbwynt penodol ar y 'grwpiau agored i niwed' a nodir yn strategaeth Mwy na Geiriau.
- Y defnydd o gyfieithu ar y pryd ar-lein pan na fydd unrhyw aelodau staff sy'n siarad Cymraeg ar gael.
- Y gwaith gydag adrannau unigol i ddatblygu adnoddau a phrosesau i'w galluogi i gydymffurfio â Safonau'r Gymraeg.

Canolbwynt tair blynedd gyntaf y cynllun hwn fydd y gwasanaethau a ddarperir i helpu'r grwpiau agored i niwed a nodir yn strategaeth Mwy na Geiriau. Bydd yr Adolygiad o'r Strategaeth, a gaiff ei gyhoeddi yn y drydedd flwyddyn, yn datblygu ar ymarfer da ac yn datblygu camau gweithredu i'w rhoi ar waith ar draws y gwasanaethau sy'n weddill er mwyn gwreiddio'r strategaeth hon ar draws y Bwrdd Iechyd.

Mesur a rheoli perfformiad

Mae Gweithgor Strategol y Gymraeg wedi cytuno ar fesurau canlyniadau a nodir yn Adran 3, ynghyd â'r mesurau perfformiad a gaiff eu defnyddio i fonitro cynnydd.

Blwyddyn 1 – 2021	Blwyddyn 2 – 2022	Blwyddyn 3 – 2023	Blwyddyn 4 – 2024	Blwyddyn 5 – 2025
Canlyniad 1: Gweithlu ymroddedig, brwdfrydig ac iach				

Camau gweithredu: • Creu proffilo sgiliau Cymraeg y staff a'i gymharu ag anghenion ieithyddol y cymunedau y maent yn eu gwasanaethu • Monitro defnydd y staff o ESR er mwyn sicrhau y caiff sgiliau Cymraeg eu cofnodi a bod y ffigurau cwblhau cyffredinol yn codi 5% bob blwyddyn. • Nifer yr aelodau staff sy'n cofrestru i gael hyfforddiant yn y Gymraeg, ac yn ei gwblhau, yn cael ei fonitro ac yn cynyddu 10% ers y flwyddyn flaenorol, gyda chanolbwynt ar y staff ym	Camau gweithredu: • Gwerthuso camau gweithredu'r flwyddyn gyntaf • Parhau i hyrwyddo ac annog y staff i ddiweddaru eu sgiliau Cymraeg ar ESR. Gwneud asesiad gwaelodlin o allu'r Bwrdd Iechyd i gynnig ymgynghoriadau clinigol yn y Gymraeg; • Asesu faint o staff o Leoliadau / Adrannau gwahanol sy'n cwblhau hyfforddiant; • Canfod bylchau yng nghynrychiolaeth gwasanaethau ar y rhestr o staff Cymraeg eu hiaith ar SharePoint; • Caiff	Camau gweithredu: • Bydd yr adolygiad o'r strategaethyn gwerthuso'r tair blynedd gyntaf. • Parhau i hyrwyddo ac annog y staff i ddiweddaru eu sgiliau Cymraeg ar ESR. • Gwella darpariaeth yr hyfforddiant i gynnwys holl feysydd y Bwrdd Iechyd. • Parhau i ddatblygu'r rhestr o siaradwyr Cymraeg ar Sharepoint a monitro'r defnydd o'r rhestr drwy'r gwaith o archwilio wardiau. • Caiff llwyddiant ei ddathlu a'i gyfathrebu ar draws y Bwrdd	Camau gweithredu: • Monitro canlyniad y camau gweithredu rhwng y flwyddyn gyntaf a'r drydedd flwyddyn a sicrhau y cânt eu gwreiddio ym mhrosesau a strategaethau'r Gweithlu a Datblygu Sefydliadol • Parhau i ddatblygu'r rhestr o siaradwyr Cymraeg sy'n cofrestru i fod ar y rhestr o siaradwyr Cymraeg ar Sharepoint a monitro'r defnydd o'r rhestr drwy'r gwaith o archwilio wardiau. • Caiff llwyddiant ei ddathlu a'i gyfathrebu ar draws y Bwrdd Iechyd. • Tafod	Camau gweithredu: • Cyhoeddi adolygiad o'r strategaeth i werthuso'r cynllun pum mlynedd – mesurau i gynnal y camau gweithredu a gyflawnwyd dros y pum mlynedd ddiwethaf a chamau gweithredu ar gyfer y pum mlynedd nesaf. • Sicrhau y caiff y data a gyhoeddir ei ddadansoddi ar lefel leol ac y caiff unrhyw welliannau posibl yn y gwasanaeth eu hystyried a'u gweithredu pan fydd angen.

Canlyniad 2: Denu a recriwtio

Camau gweithredu:	Camau gweithredu:	Camau gweithredu:	Camau gweithredu:	Camau gweithredu:
• Monitro'r nifer o swyddi Cymraeg hanfodol i sicrhau bod y Strategaeth Sgiliau Dwyieithog yn cael ei gweithredu ledled y meysydd o flaenoriaeth yn Strategaeth Mwy na Geiriau; • Datblygu a hyrwyddo'r defnydd o'r strategaeth sgiliau dwyieithog ymhlith partneriaid busnes y gweithlu drwy hyfforddiant wedi ei dargedu. • Cydweithio'n fwy ag ysgolion a cholegau lleol i hyrwyddo gyrfaoedd ym maes iechyd a denu siaradwyr Cymraeg i	• Gwerthuso braslun o ganran y swyddi Cymraeg hanfodol a hysbysebir • Asesu a gwerthuso'r defnydd o'r strategaeth sgiliau dwyieithog, yn enwedig yn y meysydd sydd wedi eu targedu a nodir yn strategaeth Mwy na Geiriau. • Gwerthuso data Gyrfa Cymru ar hynt disgyblion ysgol a myfyrwyr coleg i fonitro cynnydd siaradwyr Cymraeg o ran gyrfaoedda chyrsiau sy'n ymwneud ag iechyd.	• Sefydlu mecanwaith ffurfiol i fonitro gwaith recriwtio ar Trac i sicrhau y caiff swyddi eu hysbysebu fel swyddi Cymraeg hanfodol. • Cyflwyno mwy o hyfforddiant ar y strategaeth sgiliau dwyieithog i gynnwys pob adran. • Cyhoeddi'r adroddiad ar gynnydd – sicrhau y caiff y data a gyhoeddir ei ddadansoddi ar lefel leol ac y caiff unrhyw welliannau posibl yn y gwasanaeth eu hystyried a'u gweithredu pan fydd angen.	• Sefydlu mecanwaith ffurfiol ar gyfer monitro gwaith recriwtio ar Trac er mwyn sicrhau y caiff swyddi eu hasesu cyn eu hysbysebu. • Monitro canlyniady camau gweithredu rhwng y flwyddyn gyntaf a'r drydedd flwyddyn ac ystyried gwaith posibl ag asiantaethau eraill e.e. sefydliadau ieuenctid, yr Adran Gwaith a Phensiynau.	• Cyhoeddi adolygiad o'r strategaeth i werthuso'r cynllun pum mlynedd – mesurau i gynnal y camau gweithredu a gyflawnwyd dros y pum mlynedd ddiwethaf a'r camau gweithredu ar gyfer y pum mlynedd nesaf. • Sicrhau y caiff y data a gyhoeddir ei ddadansoddi ar lefel leol ac y caiff unrhyw gyfleoedd i gydweithio eu hystyried a'u gweithredu pan fydd angen.

Canlyniad 3: Modelau gweithlu di-dor

Camau gweithredu: • Datblygu a gweithredu polisi gofal sylfaenol (safon 78) gan ganolbwyntio ar ymarferion yn y flwyddyn gyntaf • Bydd Tîm y Gymraeg yn mynychu cyfarfodydd rheolwyr gofal sylfaenol er mwyn sicrhau bod y staff yn ymwybodol o'r cymorthsydd ar gael. • Cynyddu a hyrwyddo'r defnydd o'r rhestr o'r staff sy'n siarad Cymraeg ar Sharepoint er mwyn annog y staff i gynnig gwasanaeth Cymraeg	Camau gweithredu: • Monitro cynnydd o ran gweithredu'r polisi mewn practisiau meddygon teulu a hyrwyddo'r defnydd ohono mewn deintyddfeydd. • Cynyddu nifer yr aelodau staff gofal sylfaenol sy'n cael hyfforddiant yn y Gymraeg. • Cynyddu a hyrwyddo'r defnydd o'r rhestr o'r staff sy'n siarad Cymraeg ar Sharepoint er mwyn annog y staff i gynnig gwasanaeth Cymraeg di-dor i gleifion	Camau gweithredu: • Monitro canlyniady camau gweithredu rhwng y flwyddyn gyntaf a'r drydedd flwyddyn drwy archwilio'r gwasanaethau gofal sylfaenol. • Nodi bylchau yn y gwasanaeth ar y rhestr o'r staff sy'n siarad Cymraeg ar Sharepoint. • Adolygiad o'r strategaeth i werthuso'r tair blynedd gyntaf – caiff gwerthusiad i ddatblygu camau gweithredu ei gyflwyno ar draws holl feysydd gofal sylfaenol. • Monitro'r	Camau gweithredu: • Hyrwyddo a cheisio cynyddu nifer yr aelodau staff gofal sylfaenol sy'n cael hyfforddiant yn y Gymraeg. • Sefydlu fforymau cleifion ar draws pob sir. • Cynyddu a hyrwyddo'r defnydd o'r rhestr o'r staff sy'n siarad Cymraeg ar Sharepoint er mwyn annog y staff i gynnig gwasanaeth Cymraeg di-dor i gleifion	Cam gweithredu: • Cyhoeddi adolygiad o'r strategaeth i werthuso'r cynllun pum mlynedd – mesurau i gynnal y camau gweithredu a gyflawnwyd dros y pum mlynedd ddiwethaf a'r camau gweithredu ar gyfer y pum mlynedd nesaf. • Sicrhau y caiff y data a gyhoeddir ei ddadansoddi ar lefel leol ac y caiff unrhyw wellianna u posibl yn y gwasanaeth eu hystyried a'u gweithredu pan fydd angen.

Canlyniad 4: Creu gweithlu sy'n barod yn ddigidol

Camau gweithredu: • Hybu'r defnydd o'r logo Iaith Gwaith ar sgriniau digidol y ward, er mwyn adnabod cleifion sy'n siarad Cymraeg. Byddwn yn gwneud hynny trwy archwilio wardiau; Canolbwyntio ar feysydd pwysig fel wardiau plant a gofal yr henoed; • Cynyddu'r defnydd o gyfieithu ar y pryd ar-lein i roi cymorth Cymraeg i gleifion pan na fydd siaradwyr Cymraeg ar gael. • Bydd y staff yn cwblhau'r cwrs Cymraeg 10 awr ar-lein	Camau gweithredu: • Cynnal archwiliadau o wardiau i fonitro defnydd a chodi ymwybyddiaeth y staff. • Monitro'r defnydd o'r Gymraeg ar y gwasanaeth Language Line, codi ymwybyddiaeth y staff drwy ymsefydlu ac archwilio wardiau. • Annog y staff sydd wedi cwblhau'r cwrs 10 awr i symud ymlaen at blatfformau dysgu ar-lein eraill fel SaySomethinginWelsh.	Camau gweithredu: • Monitro cynnydd a pharhau i archwilio wardiau i godi ymwybyddiaeth y staff a dechrau archwilio'r holl wasanaethau eraill. • Casglu enghreifftiau o ymarfer da mewn perthynas â'r defnydd o gyfieithu ar y pryd ar-lein i'w rhannu ar draws holl feysydd y Bwrdd Iechyd.	Camau gweithredu: • Sicrhau y caiff data'r flwyddyn flaenorol ei ddadansoddi ar lefel leol ac y caiff unrhyw ddiffyg posibl o ran adnoddau ei ystyried ac yr eir i'r afael ag ef pan fydd angen.	Camau gweithredu: • Sicrhau y caiff data'r flwyddyn flaenorol ei ddadansoddi ar lefel leol ac y caiff unrhyw ddiffyg posibl o ran adnoddau ei ystyried ac yr eir i'r afael ag ef pan fydd angen.

Canlyniad 5: Addysg a dysgu rhagorol

Camau gweithredu: • Nifer yr aelodau staff sy'n cofrestru i gael hyfforddiant yn y Gymraeg, ac yn ei gwblhau, yn cael ei monitro ac yn cynyddu 10% bob blwyddyn. • Canolbwyntio ar feysydd allweddol strategaeth Mwy na Geiriau er mwyn sicrhau bod staff gwasanaethau gofal yr henoed a phlant yn cymryd rhan mewn hyfforddiant ymwybyddiaeth o'r Gymraeg. • Cynnydd o 10% yn nifer yr aelodau staff sy'n cwblhau'r cwrs Cymraeg 10 awr ar-lein.	Camau gweithredu: • Asesu faint o staff o Leoliadau / Adrannau gwahanol sy'n cwblhau hyfforddiant; • Annog staff sydd wedi cwblhau'r cwrs 10 awr i fwrw ymlaen a gwneud cyrsiau ar lein eraill neu gyrsiau ystafell ddosbarth; • Darparu hyfforddiant ymwybyddiaeth o'r Gymraeg ar gyfer myfyrwyr meddygaeth	Camau gweithredu: • Bydd yr adolygiad o'r strategaeth yn gwerthuso'r tair blynedd gyntaf. • Parhau i hyrwyddo'r Gymraeg ac annog y staff i'w dysgu. • Gwella darpariaeth yr hyfforddiant i gynnwys holl feysydd y Bwrdd Iechyd • Darparu hyfforddiant ymwybyddiaeth o'r Gymraeg i bob myfyriwr o bob maes clinigol.	Camau gweithredu: Datblygu ar y camau gweithredu rhwng y flwyddyn gyntaf a'r drydedd flwyddyn	Camau gweithredu: • Creu proffil o sgiliau Cymraeg y staff a'i gymharu ag anghenion ieithyddol y cymunedau y maent yn eu gwasanaethu er mwyn cydnabod potensial; • Cyhoeddi adolygiad i werthuso'r cynllun pum mlynedd – mesurau i sicrhau bod y gweithredoedd dros y 5 mlynedd diwethaf yn parhau'n llwyddiannus dros y 5 mlynedd nesaf; Sicrhau bod y data a gyhoeddir yn cael eu dadansoddi'n lleol, a bod

Canlyniad 6: Arweinyddiaeth ac olyniaeth

Camau gweithredu: • Bydd Tîm y Gymraeg yn arwain ac yn cynorthwyo gwasanaethau / adrannau i weithredu Safonau'r Gymraeg drwy gyfathrebu'n rheolaidd – Sharepoint, cylchlythyr a chyfarfodydd o'r gweithgor. • Datblygu'r Strategaeth Sgiliau Dwyieithog a hyrwyddo'r defnydd ohoni trwy dargedu hyfforddiant i Bartneriaid Busnes y Gweithlu; • Y Rheolwr Gwasanaethau Cymraeg i arwain uwch-reolwyr i weithredu	Camau gweithredu • Gwella capasiti'r tîm gyda lleoliadau profiad gwaith (prifysgolion a cholegau lleol). • Asesu a gwerthuso'r defnydd o'r strategaeth sgiliau dwyieithog, yn enwedig yn y meysydd sydd wedi eu targedu a nodir yn strategaeth Mwy na Geiriau. • Bydd Rheolwr y Gymraeg yn arwain yr uwch-reolwyr wrth weithredu Safonau'r Gymraeg – cyfarfodydd o'r Fforwm Cydraddoldeb a'r Gymraeg, y Pwyllgor Ansawdd a Diogelwch	Camau gweithredu: • Adolygu'r lefelau staffio presennol ac asesu effeithiolrwydd cymorth drwy archwiliadau rheolaidd o adrannau a wardiau. • Asesu a gwerthuso'r defnydd o'r strategaeth sgiliau dwyieithog yn enwedig ym mhob maes. • Bydd Rheolwr y Gymraeg yn arwain yr uwch-reolwyr wrth weithredu Safonau'r Gymraeg – cyfarfodydd o'r Fforwm Cydraddoldeb a'r Gymraeg, y Pwyllgor	Camau gweithredu: • Datblygu ar y camau gweithredu rhwng y flwyddyn gyntaf a'r drydedd flwyddyn.	Camau gweithredu: • Cyhoeddi adolygiad i werthuso'r cynllun pum mlynedd – mesurau i sicrhau bod y gweithredoedd dros y 5 mlynedd diwethaf yn parhau'n llwyddiannus dros y 5 mlynedd nesaf; Sicrhau bod y data a gyhoeddir yn cael eu dadansoddi'n lleol, a bod unrhyw wellianna u posibl i wasanaethau yn cael eu hystyried a'u gwneud lle bo angen.

Canlyniad 7: Cyflenwad a siâp y gweithlu

Camau gweithredu: • Monitro defnydd y staff o ESR er mwyn sicrhau y caiff sgiliau Cymraeg eu cofnodi a bod ffigurau cyffredinol yn codi 5%. • Nifer yr aelodau staff sy'n cofrestru i gael hyfforddiant yn y Gymraeg, ac yn ei gwblhau, yn cael ei fonitro ac yn cynyddu 10%, gyda chanolbwynt ar y staff sy'n gweithio mewn meysydd allweddol a nodir yng nghynllun gweithredu/ strategaeth Mwy na Geiriau • Nifer y	Camau gweithredu: • Monitro defnydd y staff o ESR er mwyn sicrhau y caiff sgiliau Cymraeg eu cofnodi a bod ffigurau cyffredinol yn codi 5%. • Nifer yr aelodau staff sy'n cofrestru i gael hyfforddiant yn y Gymraeg, ac yn ei gwblhau, yn cael ei fonitro ac yn cynyddu 10%, gyda chanolbwynt ar y staff sy'n gweithio mewn meysydd allweddol a nodir yng nghynllun gweithredu/ strategaeth Mwy na Geiriau. • Nifer	Camau gweithredu: • Monitro defnydd y staff o ESR er mwyn sicrhau y caiff sgiliau Cymraeg eu cofnodi a bod ffigurau cyffredinol yn codi 5%. • Nifer yr aelodau staff sy'n cofrestru i gael hyfforddiant yn y Gymraeg, ac yn ei gwblhau, yn cael ei fonitro ac yn cynyddu 10%, gyda chanolbwynt ar y staff sy'n gweithio mewn meysydd allweddol a nodir yng nghynllun gweithredu/ strategaeth Mwy na Geiriau • Nifer y staff sy'n siarad Cymraeg	Camau gweithredu: • Monitro defnydd y staff o ESR er mwyn sicrhau y caiff sgiliau Cymraeg eu cofnodi a bod ffigurau cyffredinol yn codi 5%. • Nifer yr aelodau staff sy'n cofrestru i gael hyfforddiant yn y Gymraeg, ac yn ei gwblhau, yn cael ei fonitro ac yn cynyddu 10%, gyda chanolbwynt ar y staff sy'n gweithio mewn meysydd allweddol a nodir yng nghynllun gweithredu/ strategaeth Mwy na Geiriau. • Nifer y staff sy'n	Camau gweithredu: • Creu proffil o sgiliau Cymraeg y staff a'i gymharu ag anghenion ieithyddol y cymunedau y maent yn eu gwasanaethu er mwyn cydnabod potensial; • Cyhoeddi adolygiadi werthuso'r cynllun pum mlynedd – mesurau i sicrhau bod y gweithredoedd dros y 5 mlynedd diwethaf yn parhau'n llwyddiannus dros y 5 mlynedd nesaf; Sicrhau bod y data a gyhoeddir yn cael eu dadansod di'n lleol,